

THEATR
CYMRU



BRÊN. CALON: fi.

gan / by
Bethan Marlow

18.06.25 – 26.06.25

Dyma Fi: hogan pentra' efo gwallt spikes a BMX, yn ffansio genod ond cogio bod yn strê; yn disgyn mewn cariad efo dynas ar cae rygbi ond cheith hi'm deud wrth neb bod hi'n disgyn mewn i'w gwely; mynd i Llundan i fod yn lesbian mewn byd lesbian yn caru bob lesbian eiliad... nes bod hi ddim.

Wrth i Fi fynd â ni ar daith o'i bywyd carwriaethol – y crushes cyfrinachol, y caru lletchwith a'r tor-calon blêr – mae'n dod i ddeall cymhlethdodau byw'n driw i'w hun wrth dyfu fyny fel tomboy yn y nawdegau.

Datblygwyd yn wreiddiol gyda chefnogaeth gan Eisteddfod Genedlaethol Cymru a pherfformiwyd yn wreiddiol ym Mhontypridd 2024.

Meet Fi: a girl in a North Wales village with spiky hair and a BMX, fancying girls but pretending to be straight; falling for a woman on the rugby team without telling anyone that she's also fallen into her bed; going to London to be a lesbian in a lesbian world loving every lesbian second... until she's not.

As Fi takes us on a journey through her love life – the secret crushes, the awkward sex and the messy heartbreak – she explores the complexities of being true to yourself while growing up as a tomboy in the nineties.

Originally developed with support from the National Eisteddfod of Wales and performed at Pontypridd 2024.



Os ydy'r themâu yn *Brên. Calon. Fi* wedi effeithio arnoch chi, mae nifer o sefydliadau i'ch cefnogi gan gynnwys:

If you've been affected by the themes in *Brên. Calon. Fi*, there are many organisations that can help, including:

Galop

Cefnogaeth i bobl LHDT+ sy'n profi ymosodiad rhywiol
Support for LGBT+ people who experience sexual assault

www.galop.org.uk

Llinell Gymorth / Support Line: 0800 999 5428

Mind

Cefnogaeth iechyd meddwl / Mental health support

www.mind.org.uk

Llinell Gymorth / Support Line: 0300 123 3393



Nodyn gan yr Awdur

Writer's Note

Bethan Marlow



Hon ydi'r ddrama mwya' bersonol dwi erioed wedi sgwennu. Achos allai ddim cynrychioli bob un lesbian yng Nghymru. Ma profiada' bob un ohona ni yn wahanol yn ddibynol ar bwy ydi rhieni ni, pwy 'da ni wedi'u dewis yn ffrindia' a pha ddylanwadau positif neu negyddol sydd o'n cwmpas ni wrth dyfu fyny.

O'n i ishio sgwennu'r ddrama yma, ddim achos bo fi ishio rhannu fy mywyd personol i ond achos bo fi ishio i gymdeithas wrando a deall pa mor ddylanwadol ma nhw'n gallu bod. Ma geiria'n sdicio, ma nhw'n gallu bod yn bwerus a ma nhw'n gallu bod yn ddiawledig o frwnt hefyd.

Dwi'n cofio Mam a Dad yn deutha fi pan o'n i'n ddeg oed *"os fasa chdi byth yn dod ata ni i ddeud bo chdi'n hoyw, da ni ishio i chdi wbod fasa ni'n caru chdi union run fath"*. Dwi'n fythol ddiolchgar mod i wedi ca'l clwad y geiria' yna a bo fi 'di ca'l rhieni mor blydi brilliant.

Ma geiria'n bwerus. O hyn ymlaen dwi am ddefnyddio nhw'n ofalus achos tydw i ddim wastad wedi.

This is the most personal play I've ever written. Because I can't represent every lesbian in Wales. All of our individual experiences are different, depending on who our parents are, who we chose as friends and which positive and negative influences were around us growing up.

I wanted to write this play, not because I wanted to share my own personal life but because I wanted society to listen and understand how influential they can be. Words stick, they can be powerful and they can be horrifically nasty too.

I remember Mam and Dad telling me when I was 10 years old: *"if you ever come to tell us that you're gay we want you to know that we'd love you just the same."* I'm forever grateful that I got to hear those words and that I had such bloody brilliant parents.

Words are powerful. From now on, I intend to use them more carefully because I haven't always done that.

Gai ddiolch o galon i Theatr Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol am gefnogi fi a lleisiau LHDT+ Cymru achos dim bob gwlad fasa'n rhoi llwyfan genedlaethol i ni.

Dwi hefyd ishio diolch i bob lesbian hen sydd wedi brwydro a phrotestio dros ein hawlia' ni achos hebddyn nhw fasa gin i ddim gwraig, faswn i ddim yn fam a faswn i ddim yn teimlo'n ddigon dewr na saff i allu rhannu hefo'r byd bo fi'n caru *vaginas*!

I'd like to thank Theatr Cymru and the National Eisteddfod for supporting me and Welsh LGBT+ voices because not every country would give us a national platform.

I'd also like to thank every older lesbian who fought and protested for our rights because without them I wouldn't have a wife, I wouldn't be a mother and I wouldn't feel brave or safe enough to share with the world that I love *vaginas*!



Nodyn gan y Cyfarwyddwr

Director's Note

Rhiannon Mair



Fi'n caru'r theatr. Fi'n caru'r modd y mae'n ein gorfodi ni i eistedd gyda'r byd sy'n cael ei gyflwyno, a myfyrio arno. Ni mor gyfarwydd â sweipio pan y'n ni wedi cael digon o stori, neu newid sianel os yw rhaglen yn mynd yn ormod, ond dyw theatr ddim yn caniatáu hynny. Mae yna elfen ddeuol i'r agwedd ddwys hon yn **Brên. Calon. Fi**. sef bod y cyfrwng nid yn unig yn gwneud i'r gynulleidfa wrando a dod wyneb yn wyneb â stori'r cymeriad (*Fi*), ond bod hynny ar ffurf digwyddiad theatrig, sydd yn cymhell *Fi* i ddod wyneb yn wyneb â'i stori hi ei hun, a thrwy hynny, dod i ddeall sut mae gwahanol llinynnau ei bywyd yn dod ynghyd.

Fel rhywun oedd yn tyfu lan yn y nawdegau, mae'r cyfeiriadau'n y sgript at fanylion diriaethol y cyfnod hwnnw'n taro'r nôd mewn modd hiraethus. Ond hawdd yw cofio'r dyddie da; mae'r geiriau hefyd yn atgof pwysig nad oedd cymdeithas yn garedig at bobl oedd yn wahanol i'r mwyafrif, ac mae llawer o'r rhagfarnau hynny'n bresennol hyd heddiw. Mae'r frwydr ymhell o fod drosodd.

I love the theatre. I love the way it urges us to sit with the world that's being presented, and meditate on it. We're so used to swiping when we've had enough of a story, or changing the channel if the programme becomes too much, but theatre doesn't allow that. There's a duality to this in **Brên. Calon. Fi** – the medium not only makes the audience listen and come face-to-face with the character *Fi*'s story, but the theatrical event also compels *Fi* to face her own story, and to understand how the different strands of her life come together.

As someone who grew up in the 1990s, the script's references to tangible details from that period strike a nostalgic chord. But it's easy to remember the good times; the play is also an important reminder that society wasn't kind to people who were different to the norm, and that many of those prejudices are still present today. The battle is far from over.

Mae **Brên. Calon. Fi.** yn stori am lesbian ifanc yn ceisio darganfod troedle mewn byd oedd wedi ei darbwyllo nad oedd hynny'n bosib, ei bod hi yn 'rong'. Mae theatr yn caniatáu rhannu stori, ac yn fwyfwy mae'r llwyfan yn gallu bod yn blatfform i glywed lleisiau grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli'n cael eu rhannu. Dwi'n grediniol fod theatr yn gyfrwng all newid y byd er gwell.

Mae e wedi bod yn ffrainc gweithio gyda sgript Bethan Marlow, sydd yn frith o guriadau, o drosiadau annisgwyl, gyda'r is-destun wastad yn byrlymu'n agos at yr wyneb. Mae Lowri Morgan yn berfformiwr greddfoll, galluog, sydd yn cyflwyno *Fi* mewn modd mor ddiwyll ac mae wedi bod yn bleser bod yn yr ystafell ymarfer gyda hi. Gan eu bod nhw, ynghyd â Cara Hood, Cêt Haf, Josh Bowles a Liv Jones, mor ardderchog yn yr hyn y maen nhw'n ei wneud, mae fy ngrwaith i fel cyfarwyddwr yn reit hawdd. Rwy'n gobeithio fy mod wedi gallu cadw'r stori'n ddiffuant a chwareus, gan droedio'r ffin hynny rhwng y doniolwch a'r dirdynol.

Brên. Calon. Fi is the story of a young lesbian trying to find her place in a world that's convinced her she doesn't belong and that she's 'wrong'. Theatre allows us to share stories, and increasingly the stage is becoming a platform to share the voices of under-represented groups. I believe that theatre is an artform that can change the world for the better.

It's been an honour to work with Bethan Marlow's fantastic script; its rhythms and unexpected metaphors, with the subtext always bubbling below the surface. Lowri Morgan is an intuitive and talented performer, presenting *Fi* in such a sincere way and it's been a pleasure being in the rehearsal room with her. Because they, along with Cara Hood, Cêt Haf, Josh Bowles and Liv Jones, have been so excellent in what they do, my work as a director has been straightforward. I hope that I've managed to retain the sincerity and playfulness within the story, toeing the line between humour and heartbreak.





Cast

Lowri Morgan

Tîm Creadigol a Chynhyrchu Creative and Production Team

Awdur | Author **Bethan Marlow**

Cyfarwyddwr | Director **Rhiannon Mair**

Cynllunydd Set a Gwisgoedd | Set and Costume Designer
Livia Jones

Cyfansoddwr a Chynllunydd Sain | Composer and Sound Designer
Josh Bowles

Cynllunydd Goleuo | Lighting Designer **Cara Hood**

Cyfarwyddwr Corfforol | Movement Director **Cêt Haf**

Cynhyrchydd | Producer **Gavin Richards**

Rheolwr Cynhyrchu | Production Manager **Caryl McQuilling**

Rheolwr Llwyfan | Stage Manager **Carys-Haf Williams**

Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol a Gweithredydd Sibrwd
Assistant Stage Manager & Sibrwd Operator
Lleucu Williams

Paentiwr Golygfeydd | Scenic Painter **Kayleigh Smith**

Crewr Capsiynau | Caption Writer **Steffan Wilson-Jones**

Dehonglydd BSL | BSL Interpreter **Cathryn McShane**

Diolchiadau / Thanks

Carolina Vasquez

Lis Williams (mam Bethan)

Staff Theatr Cymru

Tîm Rheoli / Management Team

Steffan Donnelly

Cyfarwyddwr Artistig a Chyd-Brif Weithredwr
Artistic Director and Joint Chief Executive

Angharad Jones Leefe

Cyfarwyddwr Gweithredol a Chyd-Brif Weithredwr
Executive Director and Joint Chief Executive

Rhian Davies

Cyfarwyddwr Cynhyrchu / Director of Producing

Cyfranogi / Participation

Sian Elin James

Cydllynydd Cyfranogi / Participation Co-ordinator

Cyllid a Gweinyddiaeth / Finance and Administration

Nerys Evans

Swyddog Gweithrediadau / Operations Officer

Lisa Ronan

Swyddog Cyllid / Finance Officer

Cynhyrchu / Production

Gareth Wyn Roberts

Pennaeth Cynhyrchu / Head of Production

Caryl McQuilling-Edwards

Rheolwr Cynhyrchu Cwmni / Company Production Manager

Carys-Haf Williams

Rheolwr Llwyfan Cwmni / Company Stage Manager

Cynhyrchwyr / Producers

Fflur Thomas

Gavin Richards

Steffan Wilson-Jones

Cynhyrchydd Cynorthwyol / Assistant Producer

Datblygu Creadigol / Creative Development

Rhian Blythe

Cyfarwyddwr Cyswllt / Associate Director

Marchnata a Chyfathrebu / Marketing and Communications

Ceri Williams

Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu

Head of Marketing and Communications

Elen Jones

Swyddog Marchnata a Chyfathrebu

Marketing and Communications Officer

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr / Board of Trustees

Yr Athro Jerry Hunter Cadeirydd / Chair

Dr Nia Edwards-Behi

Siôn Fôn

Elin Parisa Fouladi

Gwyn Jones

Fiona Phillips

Catherine Rees

Rhys Miles Thomas

Gwyn Williams

Lois Llywelyn Williams

Meilir Rhys Williams



Bywgraffiadau

Biographies



Lowri Morgan

Actor

Hyfforddodd Lowri fel actor yn wreiddiol ac mae hi bellach yn wneuthurwr theatr yn byw yng Nghaerdydd. Fel dramodydd, perfformiwyd drama gyntaf Lowri yn 2021 gan WAVDA, a mae hi wedi ysgrifennu ar gyfer y gyfres sebon poblogaidd *Rownd a Rownd*. Mae Lowri yn rhan o garfan Cynrychioli Cymru 2024 gyda Llenyddiaeth Cymru ac yn gweithio ar ei hail ddrama i Gwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd. Ar hyn o bryd mae Lowri yn gweithio fel Cydymaith Llenyddol yn Theatr y Sherman.

Lowri originally trained as an actor and is now a theatre-maker based in Cardiff. As a playwright, Lowri's first play was performed by WAVDA in 2021, and she has also written for the popular soap opera *Rownd a Rownd*. Lowri is part of Literature Wales's Representing Wales 2024 cohort and she is working on her second play for the Urdd's Youth Theatre Company. Currently, she is the Sherman Theatre's Literary Associate.



Bethan Marlow

Awdur / Writer

Mae Bethan yn adnabyddus yn theatr Gymreig fel dramodydd sy'n creu bydoedd ffuglennol sy'n cynnwys lleisiau go iawn. O theatr gair-am-air i gynrychiadau safle benodol gydag ac o fewn cymunedau ar gyrion ein cymdeithas, mae ei gwaith bob amser yn adlewyrchu Cymru yn yr oes sydd ohoni. Credydau yn cynnwys: *Nyrsys* (Theatr Genedlaethol Cymru), *Powerful Interventions* (Canolfan Mileniwm Cymru / Sparc at Valleys Kids) *Mold Riots* (Theatr Clwyd), *Cysgu'n Brysur* (Arad Goch / Canolfan Mileniwm Cymru), *A Queer Christmas* (Mess Up The Mess) a *Sgint* (Theatr y Sherman a Theatr Genedlaethol Cymru). Ar hyn o bryd, mae Bethan yn datblygu cyfres teledu gwreiddiol i FilmNation, World Productions a Five Acts. Mae hi hefyd yn gweithio ar ffilmiau ar gyfer ieie productions, Ardimages UK a Candid Broads Productions.

Bethan is known in Welsh theatre as a writer that creates fictional worlds that contain real voices. From verbatim theatre to site-specific productions with and within communities on the fringes of our society, her work is always an authentic representation of the Wales we live in today. Credits include: *Nyrsys* (Theatr Genedlaethol Cymru), *Powerful Interventions* (WMC/Sparc at Valleys Kids) *Mold Riots* (Theatr Clwyd), *Cysgu'n Brysur* (Arad Goch/WMC), *A Queer Christmas* (Mess Up The Mess) and *Sgint* (Sherman Theatre and Theatr Genedlaethol). Bethan is currently developing original tv series' for FilmNation, World Productions and Five Acts. She is also working on feature films for ieie productions, Ardimages UK and Candid Broads Productions.



Rhiannon Mair

Cyfarwyddwr / Director

Mae Rhiannon Mair yn gyfarwyddwr, perfformiwr, dramaturg, addysgwr ac yn fam. Mae ganddi ddoethuriaeth ymarferol ar Y Capel Cymraeg, Cymdogaeth a Pherfformio, a bu'n ddarlithydd ar y radd Theatr a Drama ym Mhrifysgol De Cymru am ddegawd. Ers gadael y Brifysgol, dyfeisiodd a pherfformiodd sioe un person, *Ar Lan y Môr*, i gwmni Volcano, oedd yn ddarn hunangofiannol yn edrych ar effaith tai gwyliau ar deulu sydd yn byw yn Sir Benfro. Yn ddiweddar, ymysg prosiectau eraill, bu'n gweithio fel dramaturg ar rai o sioeau carnifal BACA (Butetown Arts and Culture Association), bu'n fentor creadigol mewn hostel digartref gydag elusen The Wallich, ac arweiniodd gynllun Pair i Theatr Genedlaethol Cymru oedd yn edrych ar dechnegau dyfeisio theatr.

Rhiannon Mair is a director, performer, dramaturg, teacher, and mother. She has a practical doctorate on The Welsh Chapel, Community and Performance, and she was a lecturer on the Theatre and Drama degree at University of South Wales for a decade. Since leaving the University, she devised a one-woman show, *Ar Lan y Môr*, for Volcano Theatre; an autobiographical piece exploring the effects of second homes on a family living in Pembrokeshire. Recently, amongst other projects, she worked as a dramaturg on some of the Butetown Arts and Culture Association Carnival shows, she was a creative mentor at a homelessness shelter with The Wallich Trust, and she led Theatr Genedlaethol Cymru's Pair scheme looking at different techniques of devising for theatre.



Livia Jones

Cynllunydd Set a Gwisgoedd Set and Costume Designer

Mae Livia Jones yn Ddylunydd Cymraeg sy'n raddedig o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Credydau theatr yn cynnwys: *SCROOGE* (Bro Taf); *Penelopiad* (WAVDA), *A Statement After an Arrest Under the Immorality Act* (RWCMD), *Rŵan/Nawr* (Theatr Cymru a Theatr Clwyd), *le le le* (Theatr Cymru), *Brên. Calon. Fi* (Theatr Cymru), *Ha/Ha* (Theatr Cymru a Theatr Clwyd), *Byth Bythoedd Amen* (Theatr Cymru).

Credydau teledu yn cynnwys:

Sanditon Cyfres 2 + 3 (ITV), *The Winter King* (ITVX), *The Killing Kind* (Paramount Plus), *The Famous Five* (BBC), *A Good Girl's Guide to Murder* (BBC), *The Crow Girl* (Paramount Plus), *Young Sherlock*, *A Good Girl's Guide to Murder 2* (Amazon).

Credydau fel artist annibynol:
Porth y Cwtsh (Leeway Productions).

Livia Jones is a Welsh Designer and graduated from the Royal Welsh College of Music and Drama. Theatre credits include: *SCROOGE* (Bro Taf); *Penelopiad* (WAVDA), *A Statement After an Arrest Under the Immorality Act* (RWCMD), *Rŵan/Nawr* (Theatr Cymru & Theatr Clwyd), *le le le* (Theatr Cymru), *Brên. Calon. Fi* (Theatr Cymru), *Ha/Ha* (Theatr Cymru & Theatr Clwyd), *Byth Bythoedd Amen* (Theatr Cymru).

TV credits include: *Sanditon Series 2 + 3* (ITV), *The Winter King* (ITVX), *The Killing Kind* (Paramount Plus), *The Famous Five* (BBC), *A Good Girl's Guide to Murder* (BBC), *The Crow Girl* (Paramount Plus), *Young Sherlock*, *A Good Girl's Guide to Murder 2* (Amazon).

Credits as an independent artist:
Porth y Cwtsh (Leeway Productions).



Cara Hood

Cynllunydd Goleuo
Lighting Designer

Mae Cara yn Gynllunydd Goleuo a Rheolwr Llwyfan Technegol Cymraeg. Derbyniodd hyfforddiant yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru lle bu'n astudio Rheoli Llwyfan a Theatr Technegol. Mae Cara wedi ymrwymo i greu cynrychiadau arloesol, hygyrch, a chynaliadwy ac mae'n angerddol am sgwennu newydd a theatr anghonfensiynol. Roedd Cara yn un o 20:20 Lumières yr Association of Lighting Designers a chynrychiolodd 'Women in Lighting' yn Prolight + Sound 2024 yn Frankfurt.

Credydau fel Cynllunydd Goleuo yn

cynnwys: *Port Talbot Gotta Banksy* (Theatr y Sherman a Theatr3), *Mumfighter* (Grand Ambition), *Dumpy Biscuit* (The Other Room), *The Very Last Green Thing* (Welsh National Youth Opera), *Deffro'r Gwanwyn* (Y Cwmni- Theatr Ieuenctid yr Urdd), *Love, Cardiff: 50 Years of Your Stories* (Sherman Theatre), *Novacene* (National Youth Dance Company), *Sorter* (Grand Ambition), *QueerWay*

Cara is a Welsh freelance Lighting Designer and Technical Stage Manager. She trained at the Royal Welsh College of Music and Drama where she studied Stage Management and Technical Theatre. Cara is committed to making innovative, accessible, and sustainable productions and is passionate about new writing and unconventional theatre. Cara was one of The Association of Lighting Designers' 20:20 Lumières and represented 'Women in Lighting' at Prolight + Sound 2024 in Frankfurt.

Her recent Lighting Design credits

include: *Port Talbot Gotta Banksy* (Sherman Theatre & Theatr3), *Mumfighter* (Grand Ambition), *Dumpy Biscuit* (The Other Room), *The Very Last Green Thing* (Welsh National Youth Opera), *Deffro'r Gwanwyn* (Y Cwmni – Theatr Ieuenctid yr Urdd), *Love, Cardiff: 50 Years of Your Stories* (Sherman Theatre), *Novacene* (National Youth Dance Company), *Sorter* (Grand Ambition), *QueerWay*

(LeeWay Productions), *The Trial of Elgan Jones* (Theatr Na Nóg), *Bhekizizwe* (Opera Ddraig), *Shirley Valentine* (Theatr Na Nóg).

(LeeWay Productions), *The Trial of Elgan Jones* (Theatr Na Nóg), *Bhekizizwe* (Opera Ddraig), *Shirley Valentine* (Theatr Na Nóg).



Josh Bowles

Cynllunydd Sain
Sound Designer

Mae Josh yn gynllunydd / peiriannydd sain a chyfansoddwr o Gaerdydd. Mae'n gweithio'n bennaf yn y byd theatr ac mae wedi bod yn gynllunydd sain ar: *Brên. Calon. Fi.* (Theatr Cymru), *Tidy / Taclus* (Theatr Iolo / Polo Theatre - Sound Associate), *A Christmas Carol* (Theatr y Sherman), *Little Red Riding Hood* (Theatr y Sherman), *A Visit* (Papertrail / Clean Break), *O.G. Prince of Wales* (Theatr y Sherman), *Feral Monster* (National Theatre Wales), *Flight Of The Phoenix* (Elaha Soroor / Wales Millennium Centre), *Queerway* (Leeway Productions), *The Not So Fun House* (Mess Up The Mess), *Miss Littlewood* (WAVDA - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant), *Grandmother's Closet* (Luke Hereford / Canolfan Mileniwm Cymru), *A New Brain* (WAVDA), *Dance*

Josh is a Cardiff based Sound Designer / Engineer and Composer. Primarily working in theatre, he has designed for: *Brên. Calon. Fi.* (Theatr Cymru), *Tidy / Taclus* (Theatr Iolo / Polo Theatre - Sound Associate), *A Christmas Carol* (Theatr y Sherman), *Little Red Riding Hood* (Theatr y Sherman), *A Visit* (Papertrail / Clean Break), *O.G. Prince of Wales* (Theatr y Sherman), *Feral Monster* (National Theatre Wales), *Flight Of The Phoenix* (Elaha Soroor / Wales Millennium Centre), *Queerway* (Leeway Productions), *The Not So Fun House* (Mess Up The Mess), *Miss Littlewood* (WAVDA - University of Wales Trinity Saint David), *Grandmother's Closet* (Luke Hereford / WMC), *A New Brain* (WAVDA), *Dance To The Bone* (Sherman Theatre), *Godspell*

To The Bone (Theatr y Sherman), *Godspell* (WAVDA), *Fosse* (WAVDA), *Forgetting Heledd* (Rhys J. Edwards / RADA), *Crave* (The Other Room / Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru), *Cardiff Boy* (Red Oak Theatre / The Other Room), *Vincent River* (No Boundaries), *Dames* (Siberian Lights), *Where Do Little Birds Go?* (No Boundaries), *Llais/Voice* (Cwmni Pluen / Theatr y Sherman).

Mae uchafbwyntiau ei waith fel peiriannydd sain yn cynnwys: *Huw Fyw* (Theatr Cymru), *The Other Boleyn Girl* (Chichester Festival Theatre), *Romeo & Julie* (National Theatre / Theatr y Sherman), *The Boy With Two Hearts* (National Theatre / Canolfan Mileniwm Cymru), *Peter Pan* (Theatr y Sherman / Theatr Iolo) *Coram Boy* (Chichester Festival Theatre), *Kidstown* (National Theatre Wales), *Es & Flo* (Canolfan Mileniwm Cymru), *Joseph K & The Cost Of Living* (National Theatre Wales), *XXXmas Carol* (Big Loop Theatre / Canolfan Mileniwm Cymru), *Claws / Crafangau* (Sherman Theatre), *Lovecraft [Not The Sex Shop In Cardiff]* (Carys Eleri / Canolfan Mileniwm Cymru), *Alice In Wonderland* (Theatr y Sherman).

Mae Josh hefyd yn gweithio fel recordiwr a chymysgwr sain byw, gydag uchafbwyntiau'n cynnwys *Queerway* (Leeway Productions), *Codi* (Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru), *Wild Thoughts* (Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru), *10 Minute Musicals* (Leeway Productions) a nifer o brosiectau i Horizons / Gorwelion (BBC Radio Wales).

(WAVDA), *Fosse* (WAVDA), *Forgetting Heledd* (Rhys J. Edwards / RADA), *Crave* (The Other Room / Royal Welsh College of Music & Drama), *Cardiff Boy* (Red Oak Theatre / The Other Room), *Vincent River* (No Boundaries), *Dames* (Siberian Lights), *Where Do Little Birds Go?* (No Boundaries), *Llais/Voice* (Cwmni Pluen / Sherman Theatre).

Sound engineering and production sound engineering highlights include: *Huw Fyw* (Theatr Cymru), *The Other Boleyn Girl* (Chichester Festival Theatre), *Romeo & Julie* (National Theatre / Sherman Theatre), *The Boy With Two Hearts* (National Theatre / Wales Millennium Centre), *Peter Pan* (Sherman Theatre / Theatre Solo), *Coram Boy* (Chichester Festival Theatre), *Kidstown* (National Theatre Wales), *Es & Flo* (WMC), *Joseph K & The Cost Of Living* (NTW), *XXXmas Carol* (Big Loop Theatre / WMC), *Claws / Crafangau* (Sherman Theatre), *Lovecraft [Not The Sex Shop In Cardiff]* (Carys Eleri / WMC), *Alice In Wonderland* (Sherman Theatre).

Josh also works as a live sound recordist and mixer, with highlights including *Queerway* (Leeway Productions), *Codi* (National Dance Company Wales), *Wild Thoughts* (NDCW), *10 Minute Musicals* (Leeway Productions) and various projects for Horizons / Gorwelion (BBC Radio Wales).



Cêt Haf

Cyfarwyddwr Symud
Movement Director

Mae Cêt Haf yn berfformiwr llawrydd sydd wedi gweithio gyda nifer o gwmnïau theatr, dawns a theledu Cymru ers dros ddeng mlynedd. Mae'n arbenigo mewn dawns ac yn mwynhau plethu doniau symud, actio, ysgrifennu a darlunio er mwyn creu gweithiau aml-ddisgyblaeth. Yn ogystal â pherfformio mae'n gweithio fel coreograffydd a bu'n cydweithio a chreu nifer o sioeau gydag artistiaid a chwmnïau ar lwyfannau mawr, bach, digidol ac awyr agored ar draws y wlad.

Cêt Haf is a freelance performer who has worked with several theatre, dance and television companies in Wales for over ten years. Dance is her specialism, and she enjoys combining her talents in movement, acting, writing and illustrating to create multi-disciplinary works. As well as performing, she works as a choreographer and has collaborated on and created many shows with artists and companies on every type of platform – large, small, digital and open air – in all parts of the country.

THEATR CYMRU



Theatr Cymru yw'r cwmni theatr cenedlaethol iaith Gymraeg.

Mae Theatr Cymru (gynt yn Theatr Genedlaethol Cymru) yn creu profiadau theatrig beiddgar sy'n diddanu ac ysbrydoli pobl Cymru.

Rydym yn creu man i ddod ynghyd, i gysylltu'r adnabyddus a'r annisgwyl, Cymreictod a'r byd, i drafod yn ddwys ac i godi'r galon. Rydym hefyd yn creu cyfleoedd sy'n fodd i feithrin ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o artistiaid theatr Cymraeg ynghyd â chyfleoedd i bobl ledled Cymru brofi effaith drawsnewidiol creadigrwydd yn eu bywydau.

Theatr Cymru is the Welsh-language national theatre.

Theatr Cymru create bold theatre experiences to entertain and inspire the people of Wales.

We create a place of connection for the well-known and the unexpected, for Welshness and the world, for the big conversations and the joyful moments. We also facilitate opportunities that are a means of nurturing and inspiring the next generation of Welsh theatre artists, together with opportunities for people in all parts of Wales to experience the transformative effect of creativity in their lives.



Sefydlwyd y cwmni ym mis Mawrth 2003, trwy nawdd gan Gyngor Celfyddydau Cymru. O'r cychwyn cyntaf roedd un peth yn glir – mai nod y cwmni fyddai teithio, a mynd â theatr Gymraeg ei hiaith i galon cymunedau ledled Cymru, gan ddathlu ein hunaniaeth a'n hiaith yn ei holl amrywiaeth.

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae'r cwmni wedi cofleidio clasuron y theatr Gymraeg ac ysgrifennu newydd, ac wedi cyflwyno'r cyfan ar lwyfannau traddodiadol ac mewn lleoliadau annisgwyl. Yn ogystal â hyn mae'r cwmni'n rhedeg prosiectau creadigol, llesiant a cyfranogol ar draws y wlad. Mae'r cwmni bellach yn theatr deithiol uchel ei chlod sy'n rhoi Cymru a'i phobl ar y map, sy'n agored ac yn groesawgar i bawb. Gyda Steffan Donnelly yn arwain fel Cyfarwyddwr Artistig ers 2022, ochr yn ochr â'i Gyd-Brif Weithredwr Angharad Jones Leefe, ac enw newydd i'r cwmni, mae oes newydd yn gawrio.

Mae Theatr Cymru yn perthyn i chi.

The company was founded in March 2003, with a grant from the Arts Council of Wales. From the very beginning, one thing was clear – that it would be a touring company, taking Welsh-language theatre into the heart of communities up and down the country. The company would celebrate our identities and our language in all its diversity.

Over the last two decades, the company has embraced the classics of Welsh-language theatre as well as new and experimental work, presenting in traditional theatres and in unexpected locations. The company also facilitates creative, wellbeing and participatory projects across the country. Theatr Cymru is now an acclaimed touring theatre, placing Wales and its people on the map, and welcoming to all. With Steffan Donnelly taking the reins as Artistic Director in 2022, alongside Joint Chief Executive Angharad Jones Leefe, and a new name for the company, a new era is dawning.

Theatr Cymru belongs to you.

**Enillydd Gwobr UK Theatre
2024 am Ragoriaeth
Mewn Teithio**

**Enwebwyd fel Cynhyrchydd
y Flwyddyn – Gwobrau'r
Stage 2024**

**2024 UK Theatre Award
Winner for Excellence in
Touring**

**Nominated as Producer
of the Year – The Stage
Awards 2024**



Theatr i Gymru

Fel elusen gofrestredig, mae Theatr Cymru yn ddibynnu ar nawdd a rhoddion gan ein cymunedau, ac ni fyddai'n bosib i ni barhau i ddiddanu ein cynulleidfaoedd heb gefnogaeth ariannol gan ystod eang o ffynonellau.

Hoffech chi ein cefnogi?

I gyfrannu **£5**, tecstiwch **THEATRCYMRU 5** i **70085**.

Cost y neges fydd £5 yn ogystal â phris un tecst arferol.

I gyfrannu **£10**, tecstiwch **THEATRCYMRU 10** i **70085**.

Cost y neges fydd £10 yn ogystal â phris un tecst arferol.

Mae modd cyfrannu ar-lein hefyd ar ein gwefan **theatr.cymru**

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus.

Theatre for Wales

As a registered charity, Theatr Cymru depends on sponsorship and donations from our communities, and it wouldn't be possible for us to continue to entertain our audiences without financial support from a wide variety of sources.

Would you like to support us?

To donate **£5**, text **THEATRCYMRU 5** to **70085**. Texts cost £5 plus one standard rate message.

To donate **£10**, text **THEATRCYMRU 10** to 70085.

Texts cost £10 plus one standard rate message.

You can also donate online at **theatr.cymru**

Diolch yn fawr for your continued support.



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Rhif cofrestru cwmni / Company registration number: 4784488
Lluniau / Images: Mefus Photography

#BrenCalonFi
THEATR.CYMRU